**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 25ain Mehefin 2003**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

## ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# GWRANDAWIAD APÊL PARC CARAFANAU PENISA'R MYNYDD, FFORDD CAERWYS, RHUALLT

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1. Penodi cynrychiolydd/cynrychiolwyr y Pwyllgor Cynllunio i ymddangos yn y gwrandawiad apêl uchod.

### 2. CEFNDIR

2.1. Cyflwynwyd apêl yn erbyn cais cynllunio a wrthodwyd mewn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 19 Tachwedd 2002. Gwrthodwyd y cais (47/2002/0693/PF) am newid defnydd tir i ffurfio estyniad i faes carafanau teithiol ar sail yr effaith ar y tirlun. Roedd hyn yn groes i argymhelliad swyddog cynllunio i ganiatáu'r cais. Gwnaed y penderfyniad wedi i banel o Aelodau ymweld â'r safle a chyflwynwyd cynnig i wrthod yn y Pwyllgor Cynllunio ar 2 Hydref 2002. Cyfeiriwyd y cais i'r Cyngor Llawn gan fod y Pwyllgor Cynllunio wedi penderfynu gwrthod caniatâd cynllunio ar sail y tirlun a materion priffyrdd ac roedd tebygolrwydd o ddyfarnu costau yn erbyn y Cyngor petai'r ymgeisydd yn mynd ar ôl y gwrthod ar sail priffyrdd.

2.2. Cynigiwyd y cynnig i wrthod caniatâd cynllunio gerbron y Pwyllgor Cynllunio ar 2 Hydref gan y Cynghorydd R Ll. Williams, yr aelod lleol, ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd A E Fletcher Williams.

### 3. COD YMARFER GORAU

3.1. Mae'r Cod Ymarfer Gorau i Gynghorwyr a Swyddogion sy'n ymdrin â Materion Cynllunio yn nodi ym mharagraff 9.3 y bydd yn ofynnol i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ymddangos mewn gwrandawiadau apêl lle gwrthdrowyd argymhelliad Swyddog. Mae'r Cod yn nodi y bydd y Pwyllgor Cynllunio yn penodi cynrychiolwyr.

3.2. Yn unol â'r trefniadau cytunedig ar gyfer ymwneud Aelodau ag apeliadau cynllunio, ymgynghorir â'r cynrychiolydd/cynrychiolwyr a benodir ynglyn â datganiad yr achos a baratoir gan y Swyddogion a gwneir trefniadau ar gyfer cyfarfod â'r Aelodau dan sylw, yn cynnwys yr aelod lleol, cyn y gwrandawiad.

3.3. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn ni phenderfynwyd ar ddyddiad y gwrandawiad, ond caiff yr Aelodau ddiweddariad ar lafar yn y cyfarfod.

3.4. Rhagwelir y bydd Swyddog Cynllunio yn cynorthwyo gyda chyflwyno achos y Cyngor yn y gwrandawiad a bydd y Swyddog yn cael ei ddewis ar sail y cyngor ym mharagraff 9 y Cod Ymarfer Gorau.

### 4. ARGYMHELLIAD

4.1. Bod y Pwyllgor Cynllunio yn penodi cynrychiolydd/cynrychiolwyr i ymddangos ar ran y Cyngor yn y gwrandawiad uchod.

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**25 MEHEFIN 2003**

**EITEM AGENDA RHIF 4 (i)**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**
**RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (COED) 1999**
**CYNGOR SIR DDINBYCH**
**TIR YN HAFOD YNYS, RHEWL**

**GORCHYMYN CADW COED RHIF 1/2003**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Adrodd am gyflwyno Gorchymyn Cadw Coed a phenderyfnu a ddylid ei gadarnhau.

## 2. CEFNDIR

2.2 Cyflwynwyd Gorchymyn Cadw Coed brys yn y lleoliad uchod ar 31 Mai 2003 yn dilyn derbyn sylwadau gan drigolion lleol.

2.2 Y cyfiawnhad am wneud y Gorchymyn yw bod y coed yn rhai da mewn cyflwr da ond yr ystyrir eu bod yn agored i niwed gan fod rhan o’r eiddo, Hafod Ynys, wedi ei ddynodi fel safle ar gyfer datblygu potensial yn y Cynllun Datblygu Unedol.

## 3. GWRTHWYNEBIADAU

3.1 Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i’r Gorchymyn.

## 4. CASGLIAD

4.1 Ystyrir y dylid diogelu’r coed sy’n destun y Gorchymyn am eu gwerth amwynder.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Y dylid cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed Rhif 2/2003 Hafod Ynys, Rhewl.

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**25 MEHEFIN 2003**

**EITEM AGENDA RHIF 4(ii)**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**
**RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (COED) 1999**
**CYNGOR SIR DDINBYCH**
**TIR WRTH YMYL TWEEDMILL, PARC LLANNERCH**

**GORCHYMYN CADW COED RHIF 2/2003**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Adrodd am gyflwyno Gorchymyn Cadw Coed a phenderyfnu a ddylid ei gadarnhau.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae cais cynllunio ar gyfer maes carafanau wedi ei ystyried mewn coedwig dderw sy’n allweddol yn weledol ym Mharc Llannerch. Mae’r coetir yn rhan o barciau hanesyddol Plas Llannerch ac yn rhestredig fel Gradd II ar y Gofrestr Parcdiroedd a Gerddi Hanesyddol.

2.2 Y cyfiawnhad dros wneud y Gorchymyn yw bod y coetir yn cael ei ystyried fel un sy’n agored i niwed yn awr bod cynnig arfaethedig i ddatblygu’r safle.

## 3. GWRTHWYNEBIADAU

3.1 Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i’r Gorchymyn.

## 4. CASGLIAD

4.1 Ystyrir y dylid diogelu’r coetir sy’n destun y Gorchymyn i warchod ei werth amwynder.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Y dylid cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed Rhif 2/2003 ger Tweedmill, Parc Llannerch.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**25 Mehefin 2003**
**EITEM AGENDA RHIF 5**

## ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

**1. DIBEN YR ADRODDIAD**

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliadau Safle a ofynnir amdanynt gan y Pwyllgor Cynllunio.

**2. DYDDIAD YR YMWELIADAU SAFLE**

**2.1** Mewn ymgynghoriad a'r Adran Cyfreithiol a Gweinyddol, penderfynwyd mai **prynhawn Dydd Mawrth 1 Gorffennaf 2003** yw'r mwyaf addas. Mae'r dyddiad hwn wedi ei neilltuo'n ddarpariaethol.

**2.2** Felly fe'ch cynghori y bydd unrhyw ymweliadau safle a drefnir heddiw yn digwydd ar **Ddydd Mawrth 1 Gorffennaf 2003**

**3. AELODAETH Y PANEL YMWELIADAU SAFLE**

**3.1** Bydd hyn yn ddibynnol ar Gydbwysedd Gwleidyddol a bydd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1** **Bod yr Aelodau yn cytuno i gynnal yr Ymweliadau Safle ar brynhawn Dydd Mawrth 1 Gorffennaf 2003.**

# Penderfyniadau a wnaed gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio dan Bwerau Dirprwyedig 1 - 31 Mai 2003

## Eitem er gwybodaeth

**Mae hon yn rhestr o geisiadau lle gwnaed y penderfyniad eisoes dan bwerau dirprwyedig. Os ydych chi'n dymuno trafod y cais/penderfyniad, cysylltwch â'r Swyddog fu'n ymwneud â'r cais os gwelwch yn dda.**

## MATHAU O BENDERFYNIAD

| | |
|---|---|
| **CANIATÁU (GRANT)** | **- caniatáu caniatâd cynllunio** |
| **GWRTHOD (REFUSE)** | **- gwrthod pob math o gais** |
| **CYMERADWYO (APPROVE)** | **- cymeradwyo materion neu amod a neilltuwyd** |
| **CANIATÂD (CONSENT)** | **- caniatáu caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu ganiatâd hysbyseb** |
| **BARNU (DEEMED)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd hysbyseb** |
| **DIM GWRTHWYNEBIAD gadwraeth (NO OBJ)** | **- dim gwrthwynebiad i waith ar goeden/coed mewn ardal** |
| **NID YW'N OFYNNOL (NOT REQ)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd ar gyfer y gwaith arfaethedig** |
| **PENDERFYNWYD llaw (DETERMIN) gweithiau** | **- penderfynwyd nad yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth o flaen neu'n cael ei ganiatáu pan benderfynir ar y cais (rhai telecom a gwaith amaethyddol penodol)** |
| **DATBLYGIAD A GANIATEIR cais (P DEV)** | **- canfuwyd fod y cais yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn y** |
| **TYNNWYD YN ÔL (WDN)** | **- tynnwyd y cais yn ôl gan yr ymgeisydd** |
| **ANNILYS (INVALID)** | **- canfuwyd fod y cais yn annilys** |
| **ARDYSTIO (CERTIFY)** | **- cyflwynwyd tystysgrif defnydd cyfreithlon** |
| **G ARDYSTIO (RCERTIFY)** | **- gwrthodwyd cyflwyno tystysgrif defnydd cyfreithiol** |